# Pennu cost prosiect a chyd-drafod gyda chleient

## Trosolwg

Mae'r Safon hon yn ymwneud â chael archeb sydd o fudd ac yn dderbyniol i'r ddau barti. Mae'r dull o drafod yn gyfuniad o broffesiynoldeb a diplomyddiaeth.

Gall y Safon hon fod yn berthnasol i unrhyw un sy'n ymgysylltu â chleientiaid o ran darpar waith.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. cadarnhau eich dealltwriaeth o'r cais, yr ymholiad neu brosiect posibl gan ddefnyddio gwybodaeth o ffynonellau arbenigedd dibynadwy
2. 
nodi'r manteision i'r busnes ar gyfer prosiectau unigol yn unol â strategaeth y cwmni
3. 
defnyddio gwybodaeth ddibynnadwy i amcangyfrif cyllidebau sydd ar gael ar gyfer y cam cynhyrchu rydych yn gysylltiedig â hi
4. 
nodi posibiliadau sy'n dechnegol ymarferol ac o fewn cyfyngiadau prosiect ac sy'n gyson â'r hyn y mae cleientiaid am ei gyflawni
5. 
adnabod argyfyngau a sgiliau neu offer ychwanegol y gall fod eu hangen o ffynonellau allanol sy'n gyson â pholisi'r cwmni
6. 
cynnig costau ac amserlen ar gyfer y prosiect sydd yn unol â'r manteision ar gyfer y busnes a pha anghenion y mae angen i'r cleient eu cyflawni
7. 
cynnig atebion i gleientiaid mewn ffyrdd sy'n dangos sut mae'r nodweddion a'r manteision yn ddeniadol iddynt ac yn cwrdd â'u hanghenion
8. 
rhoi digon o amser i gleientiaid drafod cynigion a'u goblygiadau'n llawn
9. ymateb i anghenion y cleient a'i sefyllfa o ran cyd-drafod drwy ddarparu gwybodaeth ddilys, dangos parch tuag at eu dyheadau a dangos bwriad i ddatrys unrhyw wahaniaethau
10. 
ymateb i gwestiynau a chynigion cleientiaid mewn ffyrdd y byddant yn eu deall
11. 
cofnodi, olrhain a dilyn gohebiaeth yn unol â gofynion y cwmni
12. 
cytuno gyda chleientiaid ar y gwaith i'w wneud, yr amserlen a'r pris yn unol â gweithrefnau'r cwmni
13. 

cwblhau a storio gwybodaeth sy'n gysylltiedig â'r contract yn unol â gofynion y cwmni

14.

nodi cyfleoedd i gynnig gwasanaethau ychwanegol a fydd o fudd i gleientiaid a'ch sefydliad

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. sut mae deall anghenion cleientiaid y tu hwnt i'w ceisiadau cychwynnol
2. strategaeth y cwmni o ran proffidioldeb, proffil cwmni (enw da) a datblygu neu gynnal perthynas â chleientiaid
3. cyfyngiadau prosiect, gan gynnwys cost, yr hyn sydd i'w gyflawni, amseru ac adnoddau sydd ar gael
4. polisi'r cwmni a chonfensiynau ar gyfer pennu costau prosiectau gan gynnwys cyfraddau ar gyfer mewnbwn creadigol
5. yr hyn y gellir ei gynnig sy'n rhoi 'gwerth ychwanegol' i gleientiaid
6. sgiliau ac offer y gellir eu ffynonellu yn allanol a pholisi y cwmni mewn perthynas â'u caffael
7. safonau gwylio cyfredol a'r safonau cyflwyno proffesiynol, cenedlaethol a rhyngwladol cyfredol ac arferion gorau ar gyfer ystod o lwyfannau a chynnwys
8. sut i nodi a chydbwyso'ch meini prawf ar gyfer derbyn prosiectau fel elw, gwella enw da, digon o amser i wneud gwaith safonol, gan weithio i bobl arbennig
9. cynllunio llif gwaith a'r dewis o lif gwaith
10. problemau a risgiau sy'n gysylltiedig â gwahanol fathau o brosiectau ac ymagweddau a sut i gynllunio gogyfer ag argyfwng posib.
11. galluoedd technegol a'r cyfraniad creadigol y gall y bobl sydd ar gael ei wneud i brosiectau
12. gyda phwy i ymgynghori i gael rhagor o wybodaeth ac arweiniad ar wahanol fathau o brosiectau a gofynion technegol
13. technegau cyd-drafod

14.
pryd y mae hi'n briodol i gynghori cleientiaid i ddefnyddio gwasanaethau amgen mwy cost-effeithiol
15.
gofynion y cwmni ar gyfer cadw cofnodion a dogfennau contract
16.
systemau storio, cefnogi a diogelwch y cwmni

SKSPP03

Pennu cost prosiect a chyd-drafod gyda chleient

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | ScreenSkills |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 01 Ion 2017 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 01 Ion 2020 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Creative Skillset |
| **RCU gwreiddiol** | SKSPP01 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Gweithwyr proffesiynol ôl-gynhyrchu |
| **Cyfres/Set** | Ôl-gynhyrchu |
| **Geiriau Allweddol** | Ôl-gynhyrchu, Cynhyrchu, Ffilm, Theledu, Cleient, Drafod |